

Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau

Rhagfyr 2013

Cyflwyniad

Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau wedi bod yn destun trafod a dadlau ers cryn amser. Mae'r nodyn hwn yn rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth bresennol yn y Deyrnas Unedig a'r UE, ac mae'n rhoi manylion am y cynllun trwyddedu a'r Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau y bydd Llywodraeth y DU yn ei gyflwyno. Mae'r Bil drafft yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Er bod y drosedd o ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithio yn y Bil drafft yn berthnasol i Loegr yn unig, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i wneud cais bod y ddeddfwriaeth yn cael ei hymestyn i Gymru. Mae lles anifeiliaid yn faes lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli¹, felly mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu a ydyw am gyflwyno'r un mesurau â Lloegr.

Defnyddio Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau

Yn 2012, cafodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ffigurau diweddar gan Safonau Lles Rhyngwladol ar gyfer Anifeiliaid Perfformio (PAWSI) yn awgrymu bod nifer yr anifeiliaid gwyllt yn y DU bellach o dan 40,² er y gallai'r union ffigur newid bob tymor. Yn 2013, cafwyd trwyddedi ar gyfer 21 o anifeiliaid gwyllt mewn dwy syrcas yn Lloegr.

¹ Llywodraeth Cymru, Elin Jones (Gweinidog Materion Gwledig), *Devolution of Animal Health and Welfare Budgets from DEFRA*, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 14 Mawrth 2011 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

² DEFRA, *Asesiad Effaith: Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses*, 8 Ionawr 2012 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

³ Roedd y rhain yn cynnwys camelod, nadredd a sebras. Mae hyn yn cymharu â maint y diwydiant mor ddiweddar â 1997 pan oedd, yn ôl Animal Defenders International, rhyw 124 anifail gwyllt neu egsotig yn y DU⁴ yn cael eu defnyddio mewn rhyw 20 syrcas.⁵ Yn 2009, roedd yr anifeiliad gwyllt a oedd yn cael eu defnyddio gan syrcasau yn y DU yn cynnwys eliffantod, teigrod, llewod, camelod, sebras a chrocodeiliaid⁶. Ers 2013, nid oes unrhyw eliffantod na chathod mawr yn cael eu cadw mewn syrcasau sy'n dod o'r DU.⁷

Syrcasau yn y Deyrnas Unedig

Dim ond **dwu syrcas o Brydain**sydd ar hyn o bryd yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Mae'r ddau ohonynt wedi ymgeisio am drwyddedau o dan Rheoliadau *Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Lloegr)*.⁸ Mae dau yn llai na'r rhif a nodwyd yn adroddiad cadeirydd y Gweithgor Syrcas yn 2007.⁹

Yn ogystal, mae tair syrcas yn Iwerddon sydd ag anifeiliaid gwyllt, gan gynnwys eliffantod, llewod a theigrod. Hefyd, rydym yn gwybod bod y syrcasau hyn wedi croesi'r ffin i Ogledd Iwerddon gydag anifeiliaid gwyllt.¹⁰ Felly, fe allai poblogaeth barhaol a dros dro blynyddol yr anifeiliad syrcas yn y DU fod yn wahanol i'r nifer a amcangyfrifwyd gan PAWSI.

³ Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Pedwerydd Adroddiad, Wild Animals in Circuses*, Gorffennaf 2013 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

⁴ Animal Defenders International, *Animals in Travelling Circuses: The Science on Suffering*, 2006 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁵ Animal Defenders International, *Animal Circuses and the Animal Welfare Bill*, 2004 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁶ DEFRA, *Tough New Licensing Regime for Wild Animals in Circuses*, [fel ar 4 Medi 2012]

⁷ DEFRA, *Circuses to be Banned from Using Performing Wild Animals*, 1 Mawrth 2012 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

⁸ DEFRA, gwybodaeth drwy gais rhyddid gwybodaeth, *Application forms and inspection reports - circus animal licensing (2013)*, [fel ar 8 Gorffennaf 2013]

⁹ Y Gweithgor Syrcas, *Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses*, Hydref 2007 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

¹⁰ *ibid*

Mae gan nifer fawr o syrzasau mewn **gwledydd Ewropeaidd** anifeiliaid gwyllt, fel yr Almaen (90 eliffant yn 2006) a Ffrainc (490 cath fawr yn 2006).¹¹

Nid oes cofnod bod unrhyw syrzas o Gymru¹² neu'r Alban¹³ yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Fodd bynnag, mae syrzasau'n ymweld â'r Alban a Chymru, ac fe fu'r ddwy syrzas o Brydain sydd ag anifeiliaid gwyllt yn ymweld â Chymru rhwng 2012 a 2013.¹⁴

Deddfwriaeth

Cymru a Lloegr

Mae **Deddf Lles Anifeiliaid 2006** (o hyn ymlaen, Deddf 2006) yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr.¹⁵ Nod Deddf 2006 oedd cysoni a moderneiddio amrywiol agweddau ar ddeddfwriaeth lles anifeiliaid. Er i rai agweddau ar weithredu syrzasau gael eu rheoleiddio o dan y **Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925**, nid oes llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghenion yr anifeiliaid.¹⁶

Mae adran 9 o Ddeddf 2006 yn gosod amod y dylai rhywun sy'n gyfrifol am anifail, fel perchennog syrzas, ddiwallu ei anghenion lles rhesymol. Mae'r anghenion sylfaenol hyn yr un peth beth bynnag fo'r amgylchiadau o ran cadw'r anifail - ni ddylid cyfaddawdu anghenion anifail er mwyn ei ddefnyddio mewn syrzas; dylid ei gadw fel y caiff anifeiliaid eu cadw mewn amgylcheddau caeth eraill, fel mewn sw.¹⁷

¹¹ Born Free Foundation a RSPCA, *It's Time Parliament Changed its Act*, 2006 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

¹² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *SUB-LD7404-EM, Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2009*, 27 Chwefror 2009 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

¹³ Senedd yr Alban, *S3W-11168*, Cwestiwn gan Sarah Boyack i Richard Lochhead (yr Ysgrifennydd Cabinet dros Faterion Gwledig), Written Answers Report, 17 Mawrth 2008 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

¹⁴ DEFRA, gwybodaeth drwy gais rhyddid gwybodaeth, *Application forms and inspection reports - circus animal licensing (2013)*, [fel ar 8 Gorffennaf 2013]

¹⁵ Llywodraeth y DU, *Deddf Lles Anifeiliaid 2006*, [fel ar 8 Gorffennaf 2013]

¹⁶ Born Free Foundation a RSPCA, *It's Time Parliament Changed its Act*, 2006 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

¹⁷ Llywodraeth y DU, *Deddf Lles Anifeiliaid 2006*, [fel ar 8 Gorffennaf 2013]

Mae anghenion yr anifeiliaid yn seiliedig ar y **Pum Rhyddid**, a gafodd eu haddasu gan y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm a'r OIE (Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd) a'u haddasu a'u mabwysiadu ar gyfer Safonau Arferion Sŵau Modern DEFRA.¹⁸

Mae'r rhain yn cynnwys yr anghenion hyn:

- amgylchedd addas
- deiet addas
- y gallu i arddangos patrymau ymddygiad arferol
- cael eu cadw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt
- diogelwch rhag poen, anafiadau, dioddefaint ac afiechyd.

Ym mis Mai 2011, dywedodd Caroline Spelman, yr Ysgrifennydd Amgylchedd ar y pryd, y byddai safonau lles uchel ar gyfer anifeiliaid gwyllt sy'n perfformio ac yn teithio mewn syrzasau yn cael eu sicrhau drwy **gynllun trwyddedu** newydd a llym (yn hytrach na gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt) a fyddai'n cael ei orfodi drwy archwiliadau gan filfeddygon wedi'u cymeradwyo gan y Llywodraeth.¹⁹

Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar y cynllun trwyddedu a gynigiwyd.²⁰

Mae prif ddarpariaethau'r rheoliadau yn cynnwys:

- Amod bod unrhyw syrzas sy'n teithio yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt yn cael trwydded gan DEFRA yn gyntaf;
- Amod bod rhaid talu ffi weinyddol i gael trwydded, a'r syrzasau fydd hefyd yn gyfrifol am gost archwiliadau
- Gofyniad bod archwiliad cychwynnol cyn bod modd rhoi trwydded
- Darpariaeth ar gyfer archwiliadau pellach
- Y gallu i atal neu ddiddymu trwyddedau a

¹⁸ Born Free Foundation a RSPCA, *It's Time Parliament Changed its Act*, 2006 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

¹⁹ DEFRA, *Tough New Licensing Regime for Wild Animals in Circuses*, [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

²⁰ Llywodraeth y DU, *Consultation Response, Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses*, [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

- Rhaid bodloni a glynu at amodau trwyddedu manwl ar gyfer pob agwedd ar les mewn syrcau sy'n teithio.²¹

Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i **wahardd** anifeiliaid gwyllt mewn syrcau yn y tymor hwy.²²

Dywedodd James Paice, y cyn-Weinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth a Bwyd:

... the new regulations will protect the welfare of wild animals in travelling circuses in the intervening period before a ban can be brought into effect. We expect to publish draft legislation for a ban as soon as parliamentary time allows.²³

Cyflwynwyd Rheoliadau **Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcau sy'n Teithio 2012**o dan Ddeddf 2006 a daethant i rym yn 2013.²⁴ Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod syrcau sy'n gweithredu yn Lloegr yn gwneud cais am drwydded i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt. Hyd yma, mae dwy syrcau wedi gwneud cais sy'n ymwneud â 28 o anifeiliaid gwyllt.²⁵ Mae'r trwyddedau'n ddilys ar gyfer y syrcau am flwyddyn. Mae'r rheoliadau hyn ond yn berthnasol i syrcau sy'n gweithredu yn Lloegr.

Yr Alban

Nid oes rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol â lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcau sy'n teithio. Fodd bynnag, mae adran 24 o **Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006** (o hyn ymlaen, Deddf 2006 yr Alban) yn ei gwneud yn ofynnol bod person sy'n gyfrifol am anifeiliaid, gan gynnwys anifeiliaid syrcau, yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion yr anifeiliaid yn cael eu diwallu.²⁶ Daeth Deddf 2006 yr Alban, sy'n cysoni a moderneiddio deddfwriaeth lles anifeiliaid yn yr Alban, i rym ym mis Hydref 2006.

²¹ Llywodraeth y DU, James Paice (Y cyn-Weinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth a Bwyd), **Performing Wild Animals in Travelling Circuses**, Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol, 12 Gorffennaf 2012 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

²² *ibid*

²³ *ibid*

²⁴ Llywodraeth y DU, **Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012**, [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

²⁵ Llywodraeth y DU, **Atebion Ysgrifenedig i Gwestiynau HC Deb, 4 Tachwedd 2013, c18W** [fel ar 14 Tachwedd 2013].

²⁶ Llywodraeth yr Alban, **Deddf Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006**, [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

Gogledd Iwerddon

Y brif ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon yw'r ddeddfwriaeth newydd **Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011**, sy'n cymryd lle ²⁷Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 1972. **Diben cyffredinol y Ddeddf newydd yw atal dioddefaint diangen i unrhyw anifail asgwrn cefn. Mae'n nodi'r ymrwymadau sydd ar bobl i hyrwyddo lles anifeiliaid, gan gynnwys anifeiliaid anwes dof y maent yn gyfrifol amdanynt.**

Mae nifer o gyfyngiadau eraill ar lefelau lleol a rhyngwladol, ac yn y DU mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi gwahardd syrcau rhag perfformio ar dir cyhoeddus.²⁸

Polisi yn y DU

Yn ystod dadleuon seneddol ar y Bil Lles Anifeiliaid, mynegwyd pryderon am ddefnyddio anifeiliaid nad ydynt yn ddof mewn syrcau. Felly, cyhoeddodd DEFRA y byddai'n ystyried cyflwyno rheoliadau o dan Ddeddf 2006 i wahardd defnyddio, mewn syrcau sy'n teithio, rhai rhywogaethau nad ydynt yn ddof na ellir diwallu eu hanghenion lles yn foddhaol yn yr amgylchedd hwnnw.²⁹

Sefydlwyd **Gweithgor Syrcau** yn 2006 i ddarparu ac ystyried tystiolaeth ynghylch anghenion teithio a llety yr anifeiliaid hyn. Er y byddai rheoleiddio yn fater wedi'i ddatganoli, cytunodd y gweithgor i ystyried tystiolaeth ar gyflwyno rheoliadau ym mhob awdurdod yn y DU. Daeth adroddiad **Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcau sy'n Teithio**³⁰ y Gweithgor yn 2007 (o hyn ymlaen, **Adroddiad Radford**), i'r casgliad bod diffyg tystiolaeth wyddonol sy'n darbwyllo ac y byddai felly'n anodd cyflwyno rheoliadau o dan adran 12 o Ddeddf 2006.

²⁷ Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, **Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011**, [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

²⁸ Born Free Foundation a RSPCA, **It's Time Parliament Changed its Act**, 2006 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

²⁹ "I intend to use a regulation under clause 10 of the Animal Welfare Bill [now section 12 of the Act] to the use in travelling circuses of certain non-domesticated species whose welfare needs cannot be satisfactorily met in that environment". Ben Bradshaw, Is-ysgrifennydd Seneddol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 8 Mawrth 2006.

³⁰ DEFRA, Y Gweithgor Syrcau, **Wild Animals in Travelling Circuses: Adroddiad Cadeirydd y Gweithgor Syrcau**, Hydref 2007 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

Felly, byddai angen creu deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn cyflwyno gwaharddiad.

Yn dilyn hyn, cafodd **Astudiaeth Ddichonoldeb Syrcasau** ei dechrau i ymchwilio a fyddai'n bosibl rheoleiddio'r defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau sy'n teithio. Ar 21 Rhagfyr 2009, cyflwynodd DEFRA ymgynghoriad cyhoeddus, yn gofyn am farn rhanddeiliaid am wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yn gyfan gwbl, rheoleiddio gorfodol a hunan-rheoleiddio gwirfoddol. Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd o blaid gwaharddiad llwyr.³¹

Opsionau deddfwriaethol

Daeth DEFRA i'r casgliad, ni ellir defnyddio rheoliadau o dan adran 12 o Ddeddf 2006 nac adran 26 o Ddeddf 2006 yr Alban i gyflwyno gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau, oherwydd diffyg:

- tystiolaeth wyddonol glir bod problem lles sy'n benodol berthnasol i anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau
- tystiolaeth mai gwaharddiad fyddai'r dull mwyaf cymesur o ddatrys y broblem. honno.³²

Dangosodd y dadansoddiad o'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus DEFRA yn 2002 fod gwahaniaeth barn am ddyfodol anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau – roedd grwpiau lles yn galw am waharddiad llwyr ar anifeiliaid mewn syrcasau, ond roedd y masnachau perfformio'n galw am fwy o reoleiddio.³³ Fodd bynnag, roedd pawb yn gytûn bod budd *Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925* wedi dod i ben³⁴, gydag Adroddiad Radford o'r Gweithgor Syrcas yn 2007 yn dweud nad oedd y sefyllfa bresennol yn opsiwn cynaliadwy.³⁵

³¹ DEFRA, *Initial Summary of Responses to the Defra Public Consultation Exercise on the Use of Wild Animals in Circuses*, Mawrth 2010 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

³² DEFRA, Y Gweithgor Syrcas, *Wild Animals in Travelling Circuses: Adroddiad Cadeirydd y Gweithgor Syrcas*, Hydref 2007 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

³³ DEFRA, *The Consultation on an Animal Welfare Bill: An Analysis of Replies*, Awst 2002 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

³⁴ *ibid*

³⁵ DEFRA, Y Gweithgor Syrcas, *Wild Animals in Travelling Circuses: Adroddiad Cadeirydd y Gweithgor Syrcas*, Hydref 2007 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

Polisi a Deddfwriaeth y Dyfodol

Lloegr

Cyhoeddwyd y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasaudrafft ar 16 Ebrill 2013.³⁶ O dan y cynigion, bydd yn drosedd i unrhyw un sy'n rhedeg syrcas ddefnyddio anifail gwyllt mewn perfformiad neu arddangosfa mewn syrcas deithio yn Lloegr, a rhaid i bob syrcas deithio yn Lloegr rhoi terfyn ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn perfformiadau erbyn mis Rhagfyr 2015. Bydd y Bil drafft yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ond bydd y drosedd o ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithio ond yn berthnasol yn Lloegr fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu ei bwriad i ymestyn y darpariaethau i Gymru.

Y gosb fwyaf am fynd yn groes i'r Ddeddf fydd **£5,000**. Mae safbwynt Llywodraeth y DU wedi ei seilio ar egwyddor moesegol yn hytrach na lles anifeiliaid.³⁷

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi gwneud gwaith craffu ar y Bil drafft ac wedi argymhell gwahardd anifeiliaid sydd wedi eu nodi ar restr o anifeiliaid mewn syrcasau (fel eliffantod a chathod mawr) yn hytrach na phob anifail gwyllt.³⁸ Mae Llywodraeth y DU wedi datgan, o ystyried bod syrcasau yn teithio, y byddai gorfodi'r Ddeddf yn haws pe bai'r ddeddfwriaeth yn berthnasol leled y Deyrnas Unedig. Yn hynny o beth, mae Gweindiog DEFRA yr Arglwydd de Mauley wedi ysgrifennu at eu swyddogion cyfatebol yn y gweinyddiaethau datganoledig i ofyn iddynt ystyried a ydynt am ganiatau Senedd San Steffan i ddeddfu dros eu gwledydd.³⁹

³⁶ Llywodraeth y DU, *Bil Drafft Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau*, Ebrill 2013 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

³⁷ Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Pedwerydd Adroddiad, Wild Animals in Circuses*, Gorffennaf 2013 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

³⁸ Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Pedwerydd Adroddiad, Wild Animals in Circuses*, Gorffennaf 2013 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

³⁹ Llywodraeth y DU, *Papur Gwyn Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau*, Ebrill 2013 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymateb i adroddiad y Pwyllgor Dethol ar 9 Hydref 2013. Yn yr adroddiad hwnnw, gwrthwynebodd y Llywodraeth yr argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor ar y Bil drafft.⁴⁰ Yn benodol, gwrthwynebwyd yr argymhelliad i gynnwys rhestr o rywogaethau wedi eu gwahardd yn y Bil.^{41,42}

Cymru

Mae lles anifeiliaid yn faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli⁴³.

Ar 10 Gorffennaf 2012, mewn ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad, dywedodd John Griffiths, y cyn-Weinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy:

The Animal Welfare Act 2006 enables the Welsh Ministers to make secondary legislation for the purpose of promoting the welfare of animals. To rely on section 12 the Welsh Ministers must be able to demonstrate that a ban would promote animal welfare.

Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Rhan 1 atodlen 7) yn darparu cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio deddfwriaeth gynradd ynghylch Lles Anifeiliaid.⁴⁴

Ar 11 Gorffennaf 2012, cyflwynodd Rebecca Evans AC gynnis ar gyfer Bil arfaethedig Aelod, y *Bil Gwahardd Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Cymru)*, i'r balot a gynhaliwyd ar **24 Ebrill 2013**. Fodd bynnag, ni ddewiswyd y cynnis yn y balot.⁴⁵

⁴⁰ Llywodraeth y DU, *Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau - Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Ymateb y Llywodraeth*, Hydref 2013 [fel ar 13 Tachwedd 2013].

⁴¹ Llywodraeth y DU, *Deddf Lles Anifeiliaid 2006*, [fel ar 8 Gorffennaf 2013]

⁴² Llywodraeth y DU, *Deddf Trwyddedu Swau 1981*, [fel ar 13 Tachwedd 2013].

⁴³ Llywodraeth Cymru, Elin Jones (Gweinidog Materion Gwledig), *Devolution of Animal Health and Welfare Budgets from DEFRA*, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 14 Mawrth 2011 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁴⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *WAQ60798*, Cwestiwn gan Aled Roberts i John Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy), Cofnod y Trafodion t.8, 10 Gorffennaf 2012, [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁴⁵ Papur y Gwasanaeth Ymchwil, *Araith y Frenhines yn 2013 a'r Bil drafft (Cymru), Mai 2013 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]*

Nid yw'r *Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau* fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas yng Nghymru. Fodd bynnag, ar 19 Mehefin 2013, dywedodd Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd:

Following the publication of DEFRA's Command paper 8538 on Wild Animals in Circuses, I intend writing to Lord de Mauley confirming my predecessor's view on working with the UK Government and seeking an extension to the offence of using a wild animal in a circus to Wales.⁴⁶

Cadarnhawyd hyn mewn tystiolaeth ysgrifenedig at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd Alun Davies.⁴⁷

Mae 12 o'r 22 **Awdurdod Lleol** yng Nghymru eisoes wedi rhoi polisiâu ar waith sy'n gwahardd syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt rhag perfformio ar dir cyhoeddus yng Nghymru.⁴⁸

Yr Alban

Dywedodd Richard Lochhead, yr Ysgrifennydd Cabinet Materion Gwledig a'r Amgylchedd, wrth Cymdeithas Milfeddygon Prydainym mis Mehefin 2013:

we are currently looking at the complex legal issues surrounding a possible ban in Scotland on ethical grounds and plan to issue a consultation on this soon to provide clear evidence of the feeling on this matter in Scotland.⁴⁹

Mae sawl cyngor yn yr Alban wedi gwahardd syrcasau ag anifeiliaid sy'n perfformio, rhag eu tiroedd, gan gynnwys gogledd Lanarkshire, dwyrain Ayrshire ac Allerdale.⁵⁰

⁴⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *WAQ64896*, Cwestiwn gan Rebecca Evans i Alun Davies (y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), 19 Gorffennaf 2013 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

⁴⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Papur 1: Cyllideb Draft 2014-15: Papur gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd*, [fel ar 13 Tachwedd 2013]

⁴⁸ RSPCA, *Animal Welfare Indicators Wales*, 2011 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁴⁹ Richard Lochhead, *Araith i Gymdeithas Milfeddygon Prydain yng nghinio blynyddol yr Alban*, 18 Mehefin 2013 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

Gogledd Iwerddon

Ar 22 Ionawr 2013, dywedodd y Gweinidog
Amaethyddiaeth Michelle O'Neill:

I have not yet developed a position on a ban on the use of wild animals in travelling circuses in the North. [...] Before making any decision on a ban on using wild animals in travelling circuses here, I want to take the time to assess the available evidence and to give the issue detailed consideration. [...] It is important to point out that, given that we do not have any registered circuses in the North, we need an all-island approach to the issue because there is no point in having legislation in one jurisdiction and not in the other.⁵¹

Deddfwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd a Deddfwriaeth Fyd-eang

Deddfwriaeth yn yr UE

Nid oes deddfwriaeth gan yr UE sy'n ymdrin yn benodol â lles anifeiliaid syrcas. Fodd bynnag, dylai syrcasau gydymffurfio â'r darpariaethau canlynol:

- **Rheoliad Cyngor 338/97/EC** - gwarchod anifeiliaid a phlanhigion gwyllt sy'n rhywogaethau o dan fygythiad drwy reoleiddio masnach.⁵²
- **Rheoliad Cyngor 1/2005/EC** - amddiffyn anifeiliaid wrth eu cludo a gweithredoedd sydd ynghlwm wrth hynny.⁵³
- **Cyfarwyddeb Cyngor 92/65/EEC** - gofynion iechyd penodol ar gyfer anifeiliad sydd wedi'u mewnforio ar gyfer syrcasau, yn ôl eu rhywogaeth.⁵⁴
- **Rheoliad Comisiwn 1739/2005/EC** - rheolau safonedig ledled yr UE i ganiatáu a helpu gyda symud anifeiliaid syrcas ac anifeiliaid perfformio rhwng Aelod-wladwriaethau.⁵⁵

⁵¹ Cofnod swyddogol Cynulliad Gogledd Iwerddon, **Cyfrol 81, Rhif 2, AQO 3197/11-15, 22** Ionawr 2013 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

⁵² **OJ L 061, 3.3.97** [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁵³ **OJ L 003, 5.1.05** [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁵⁴ **OJ L 268, 14.9.92** [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁵⁵ **OJ L 279, 22.10.05** [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

Yng Nghymru a Lloegr, caiff y rheoliadau hyn eu deddfu drwy **Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Labordai, Syrcasau a Chwarantin Adar) 2007**.⁵⁶

Y sefyllfa yn Awstria

Mae'r gyfraith yn Awstria yn gwahardd cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.⁵⁷ Dechreuodd y Comisiwn Ewropeaidd achos yn erbyn Awstria o dan Erthygl 258 y *Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd* (TFEU - Cytuniad diwygiedig y CE), ar ôl archwiliad gan Ombwdsmon Ewrop.

Yn ôl llythyr cychwynnol Charlie McCreevy, Comisiynydd y Farchnad Fewnol, a oedd yn rhoi hysbysiad ffurfiol ar 12 Hydref 2005, roedd y gwaharddiad llwyr ar anifeiliaid mewn syrcasau yn atal gwasanaethau rhag gallu symud yn rhydd⁵⁸ ac nid oedd yn cydymffurfio â phrawf Gebhard.⁵⁹ Newidiodd y Comisiwn ei feddwl am briodoldeb yr UE i benderfynu ar y mater ac fe ddaeth â'r achos cyfreithiol i ben gan ddefnyddio ei bwerau disgrisiwn. Dadl y Comisiwn oedd bod y gwaharddiad yn Awstria yn torri Erthygl 49 o'r Cytuniad (Hawl Sefydliad) ond y gallai materion yn ymwneud â lles anifeiliaid gyfiawnhau'r gwaharddiad.⁶⁰

Deddfwriaeth mewn gwledydd eraill

Mae gan nifer o genhedloedd yr UE waharddiadau ar anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau gan gynnwys Awstria, Croatia a Groeg. Mae gan rai gwledydd eraill waharddiadau ar rai rywogaethau o anifeiliaid gwyllt, e.e. Denmarc, y Ffindir, Hwngari, Portiwgal a Sweden. Mae Estonia a Gwlad Pwyl yn gwahardd anifeiliad sy'n cael eu geni yn y gwyllt rhag cael eu defnyddio mewn syrcasau.⁶¹

⁵⁶ Llywodraeth y DU, **Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Labordai, Syrcasau a Chwarantin Adar) 2007**, [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

⁵⁷ Swyddfa Canghellor Ffederal Awstria, **Deddfau Awstria**, 2012 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁵⁸ Mae Erthygl 49 EC yn nodi: "... restrictions on freedom to provide services within the Community shall be prohibited..."

⁵⁹ Achos C-55/94, **Rheinhard Gebhard v Consiglio dell'Ordine degli Avvocati e Procuratori di Milano**. (cyfeiriad ar gyfer y dyfarniad cychwynnol), 1995, ECR I-04165, paragraff 37 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁶⁰ Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **SNSC-5992**, Wild Animals in Circuses, 14 Gorffennaf 2012 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

⁶¹ Animal Defenders International, **Bil Anifeiliaid Syrcas a Lles Anifeiliaid**, 2004 [fel ar 9 Gorffennaf 2013]

Mae sawl gwlad arall yn gwahardd anifeiliaid gwyllt rhag cael eu defnyddio mewn syrcau gan gynnwys Bolifia, Colombia, Costa Rica, Paraguay, Peru, Israel a Singapore.⁶²

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Anifeiliaid mewn Syrcau**, cysylltwch â **Nia Seaton** (Nia.Seaton@cymru.gov.uk), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: www.cynulliadcymru.org/bus-home/research.htm

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn e-bost i Research.Service@cymru.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cynhyrchu'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff, ond ni allant gyngori'r cyhoedd.

Rhif yr ymholiad: 13/1834

⁶² ibid